

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR NOS LUN, 29 MEHEFIN AM 7 PM

PRESENNOL: Y Maer (Cynghorydd Wilkinson) ynghyd â'r Cynghorwyr Aviet, Bailey, Brooks, Charles, Clarke, Collins, Drake, Hampton, Hawkins, N Hodges, S Hodges, Hooper, Johnson, Lloyd-Selby, Nugent-Finn, Payne, Perkes, Richardson, Rowlands, Wiliam, a Wright.

<u>HEFYD YN BRESENNOL:</u> Emily Forbes	Prif Swyddog (Clerc y Dref)
Mark Sims	Dirprwy Brif Swyddog
Robyn Walsh	Swyddog Ymgysylltu
	Cymunedol
Rhian Burns	Gweinyddydd

713. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

714. **DERBYN DATGANIADAU O FUDDIANNAU O DAN GOD YMDDYGIAD Y CYNGOR GAN NODI GORCHYMYN AWDURDODAU LLEOL (MODEL GOD YMDDYGIAD) (CYMRU) 2008 A GORCHYMYN AWDURDODAU LLEOL (MODEL GOD YMDDYGIAD) (CYMRU) (DIWYGIAD) 2016 A FABWYSIADWYD GAN Y CYNGOR AR 16 MAI 2017 (TUDALEN 16 RHAN 3)**

Nododd y Cynghorwyr Aviet, Bailey, Brooks, Charles, Collins, Drake, Hampton, N Hodges, Johnson, Nugent-Finn, Perkes, Rowlands, Wiliam, Wilkinson a Wright eu bod yn Gyngorwyr ar Gyngor Bro Morgannwg ac y cawsant oddefeb i siarad ac i bleidleisio ar faterion yn ymwneud ag Ail-lunio Gwasanaethau.

Nododd y Cynghorydd Johnson y cafodd oddefeb i siarad a phleidleisio ar faterion i'r dyfodol yn ymwneud â Neuadd Pioneer a'r Neuadd Gymunedol arfaethedig yn Nynesfa'r Fynwent, gan ei fod yn Ymddiriedolydd Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Cymdeithas Gymunedol Gerddi Alexandra.

Cafwyd munud o dawelwch i gofio pawb a fu farw yn ystod pandemig Coronafeirws.

715. **CYMERADWYO A LLOFNODI COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN A GYNHALIWDYD AR 10 CHWEFROR 2020**

Holodd y Cynghorydd S Hodges a gafwyd unrhyw ymateb i'r llythyrau a ddanfonwyd yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 2 Rhagfyr 2019 (cofnod rhif 649). Dywedodd y Prif Swyddog na dderbyniwyd unrhyw ymatebion. Gofynnodd y Cynghorydd S Hodges a ellid ail-ddanfon y llythyrau hyn.

PENDERFYNWYD:

1. Y dylid cymeradwyo a llofnodi'n gywir gofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2020, ar yr amod y gwneir y newid uchod.
2. Y dylid ail-ddanfon y llythyrau canlynol:-
 - a. Y dylai Maer Y Barri ysgrifennu ar ran y Cyngor hwn at Gyngor Bro Morgannwg, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am ddiweddariad ar y broses EIA gyflawn a'r caniatâd cynllunio sydd ei angen ar gyfer llosgydd Biomas Y Barri.
 - b. Y dylai Maer Y Barri ysgrifennu ar ran y Cyngor hwn at Brif Weinidog Cymru a'n Haelodau Cynulliad etholedig yn condemnio'r penderfyniad i gomisiynu'r llosgydd biomas yn Y Barri heb y broses EIA gyflawn a'r caniatâd cynllunio.

716.

DERBYN CYFATHREBIADAU ODDI WRTH Y MAER

Dyweddodd y Maer wrth yr aelodau y bu'n rhaid canslo'r digwyddiad a drefnwyd ar gyfer Diwrnod VE oherwydd y cyfyngiadau sydd ar waith.

Dyweddodd ei bod wedi cyhoeddi datganiadau ar yr achlysuron canlynol –

- Diwrnod VE
- Diwrnod Windrush
- Protest Mae Bywydau Duon yn Bwysig yn Y Barri
- Diwrnod y Lluoedd Arfog

Dyweddodd y Maer ei bod yn gobeithio y bydd digwyddiadau'n gallu parhau yn y dyfodol ond os nad oedd yn ddiogel gwneud hynny y byddai'n parhau i gyhoeddi datganiadau ar gyfryngau cymdeithasol, a'r dyddiad nesaf o bwys yw coffáu diwedd ymgyrch yr Ail Ryfel Byd yn Burma.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cyfathrebiadau oddi wrth y Maer.

717.

YSTYRIED CWESTIYNAU ODDI WRTH GYNGHORWYR (CYFEIRIR AT REOL SEFYDLOG 3 (E))

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

718.

YSTYRIED CWESTIYNAU/SYLWADAU ODDI WRTH AELODAU'R CYHOEDD (CYFEIRIR AT REOL SEFYDLOG 3 (F))

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau. Holodd y Cynghorydd S Hodges sut fyddai'r rheolau ynghylch caniatáu i'r cyhoedd gymryd rhan mewn cyfarfodydd yn gweithio wrth edrych i'r dyfodol. Dywedodd y Prif Swyddog fod Rheoliadau cyfredol Llywodraeth Cymru yn caniatáu i gynghorwyr fynychu cyfarfodydd Cyngor gan ei fod yn cael ei ystyried yn waith hanfodol, ond nid oedd presenoldeb aelodau'r cyhoedd yn cael ei ystyried yn hanfodol. Dywedodd fod cynghorau eraill wedi sôn am broblemau gwahanol wrth ganiatáu i aelodau'r cyhoedd fynychu o bell. Dywedodd y Prif Swyddog fod aelodau'r wasg yn gallu mynychu o bell ac y byddai'r agendau a'r cofnodion ar gael ar wefan y Cyngor. Dywedodd hefyd y gallai aelodau'r cyhoedd gyflwyno cwestiynau cyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a nodi'r wybodaeth.

719. **YSTYRIED CYNIGION A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR**

Ni dderbyniwyd unrhyw gynigion.

720. **ENWEBU DARPAR FAER A DARPAR DDIRPRWY FAER AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2020/21. (GAN NODI FOD RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (CORONAFEIRWS) (CYFARFODYDD) (CYMRU) 2020 YN CANIATÁU'R CYNGOR I BENDERFYNU PEIDIO ETHOL MAER NEWYDD A BOD Y MAER A'R DIRPRWY FAER PRESENNOL YN PARHAU YN EU SWYDDI TAN FIS MAI 2021)**

Cynigiodd y Cynghorydd Brooks y dylai'r Maer a'r Dirprwy Faer presennol barhau yn eu swyddi tan fis Mai 2021. Dywedodd nad oedd y Maer presennol wedi gallu cwblhau'r gwaith codi arian a drefnwyd ar gyfer y flwyddyn ac na fyddai'n bosib i Faer newydd gychwyn eu blwyddyn yn y ffordd arferol. Cytunodd yr aelodau mai dyma'r ffordd orau ymlaen.

Cymerwyd pleidlais ar a ddylai'r Maer a'r Dirprwy Faer presennol barhau yn eu swyddi tan fis Mai 2021. Canlyniadau'r bleidlais oedd –

**Dros – 20
Yn erbyn – 0
Ymatal - 2**

PENDERFYNWYD y dylai'r Maer a'r Dirprwy Faer presennol barhau yn eu swyddi tan fis Mai 2021.

721. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWYD AR 18 CHWEFOR 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2020.

722. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y GWEITHGOR YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD AR 5 MAWRTH 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Gweithgor Ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2020.

723. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR NEUADDAU, MYNWENTYDD A CHYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A GYNHALIWYD AR 2 MAWRTH 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd a Chyfleusterau Cymunedol a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020.

724. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD GWEITHGOR Y BARRI GYNALIADWY A GYNHALIWYD AR 2 MAWRTH 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod Gweithgor Y Barri Gynaliadwy a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020.

725. **ATODLEN TALU CYFRIFON AR GYFER MAWRTH 2020 (TERFYNOL) AC EBRILL 2020 I FEHEFIN 2020**

Derbyniodd yr aelodau y rhestr daliadau ar gyfer Mawrth 2020 (Terfynol) ac Ebrill 2020 i Fehefin 2020 i'w chymeradwyo, yn cynnwys taliadau BACS a debydau uniongyrchol gwerth cyfanswm o £65,351.21 a £160,248.62.

PENDERFYNWYD:

1. Y dylid derbyn a nodi'r wybodaeth ynghylch taliadau cyflog ar gyfer Chwefror 2020 i Fehefin 2020 yn gynhwysol, a ardystiwyd ac a awdurdodwyd gan y swyddogion priodol yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 19(c).
2. Y dylid cymeradwyo'r rhestr daliadau ar gyfer Mawrth 2020 (Terfynol) yn cynnwys taliadau BACS a debydau uniongyrchol gwerth cyfanswm o £65,351.21.
3. Y dylid cymeradwyo'r rhestr daliadau Chwefror 2020 i Fehefin 2020 yn cynnwys taliadau BACS a debydau uniongyrchol gwerth cyfanswm o £160,248.62.

726. **ADRODDIAD ALLDRO'R GYLLIDEB 31 MAWRTH 2020**

Derbyniodd yr aelodau adroddiad yn rhoi gwybod iddynt am incwm a gwariant y Cyngor ym mlwyddyn ariannol 2020/21 fel yr oedd ar ddiwedd Mawrth 2020.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Mawrth 2020, yn dangos yr union incwm a gwariant hyd at ddiwedd mis deuddeg ym mlwyddyn ariannol 2019/20, gan nodi'r tanwariant net o £107,160 ar gyfer 2019/20.

727. **CYFRIFON DRAFFT Y CYNGOR TREF AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31 MAWRTH 2020**

Derbyniodd yr Aelodau Gyfrifon drafft y Cyngor Tref a'r Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2020 i'w cymeradwyo cyn eu danfon at yr archwilwyr allanol, Grant Thornton.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r datganiadau ariannol drafft a'r datganiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2020 cyn eu danfon at yr archwilwyr allanol, Grant Thornton.

728. **MABWYSIADU DATGANIAD RHEOLYDDION MEWNOL**

Derbyniodd yr aelodau yr adolygiad blynyddol o reolyddion mewnol.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn yr wybodaeth ac y dylid mabwysiadu'r adolygiad blynyddol o reolyddion mewnol.

729. **DERBYN A GWEITHREDU AR ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2020/21**

Derbyniodd yr Aelodau Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2020/21 sy'n darparu ar gyfer Taliadau i Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned.

Gofynnodd y Cynghorydd Brooks a ellid e-bostio ffurflenni tynnu allan o'r Lwfans Cynghorwyr at Aelodau.

PENDERFYNWYD:

1. **Y dylid cytuno taliad uwch gyflog o £500 ar gyfer cyfrifoldebau penodol Arweinydd y Cyngor (Penderfyniad 43)**

2. Y dylid cytuno taliad ar gyfer treuliau teithio wrth gyflawni dyletswyddau a gymeradwywyd (Penderfyniad 45)
3. Y dylid cytuno taliad treuliau cynhaliaeth pan gymeradwywyd arhosiad dros nos (Penderfyniad 46)
4. Y dylid cytuno ad-dalu costau ariannol a ysgwyddwyd wrth gyflawni dyletswyddau a gymeradwywyd (Penderfyniad 47)
5. Y dylid cytuno taliad i Faer/Cadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £1,500 (Penderfyniad 49)
6. Y dylid cytuno taliad i Ddirprwy Faer/Dirprwy Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £500 (Penderfyniad 50)
7. Y dylid e-bostio ffurflenni tynnu allan o'r Lwfans Cynghorwyr at bob Aelod.

730. **CYMERADWYO ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR TREF Y BARRI 2019-2020**

Derbyniodd yr Aelodau Adroddiad Blynyddol drafft Cyngor Tref Y Barri. Nododd yr Aelodau eu diolch i staff am baratoi'r Adroddiad Blynyddol.

Roedd yr Aelodau'n awyddus hefyd i gymryd y cyfle i ddiolch i staff Cyngor Tref Y Barri am eu gwaith yn ystod cyfnod yr argyfwng.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol.

731. **TRAFOD EFFAITH Y CORONAFEIRWS/COVID-19 AR SEFYLLFA ARIANNOL, GWASANAETHAU AC YMGYSYLLTIAD Y CYNGOR AC YSTYRIED BLAENORIAETHAU'R CYNGOR AR GYFER 2020/21**

Dywedodd y Cynghorydd Brooks ei bod yn bwysig ystyried sut roedd blaenoriaethau wedi newid a sut allai'r Cyngor edrych tua'r dyfodol yn dilyn pandemig Coronafeirws. Awgrymodd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai i weithgor gynnal trafodaethau cychwynol a chyflwyno awgrymiadau i gyfarfod y Cyngor ar 29 Gorffennaf 2020. Cytunodd yr Aelodau â'r cynnig, gan ddweud y byddai Gweithgor Y Barri Gynaliadwy yn fforwm addas ar gyfer cynnal y drafodaeth hon.

Dywedodd y Cynghorydd S Hodges y byddai'n ddefnyddiol at ddibenion cynllunio a gwneud penderfyniadau pe bai mwy o wybodaeth ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ba gyfyngiadau mwy hirdymor fyddai ar waith, yn enwedig felly ar gyfer digwyddiadau.

Dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby ei bod yn teimlo ei fod yn gwneud synnwyr ehangu cylch blaenoriaethau'r Cyngor, ac er y byddai cynlluniau'n ddibynnol ar y penderfyniadau a gyhoeddir gan

Lywodraeth Cymru, y gellid trafod a chytuno'r themâu cyffredinol. Dywedodd hefyd y dylid ystyried risg ac effaith y pandemig yn lleol.

Gofynnodd y Cynghorydd Clarke i Aelodau ystyried yr effaith ar eu wardiau eu hunain a danfon eu syniadau at y Pwyllgor.

Dyweddodd y Cynghorydd Perkes ei bod yn cytuno â'r consensws cyffredinol, ond ei bod yn awyddus i holi beth fyddai'r effaith ar Grŵp Ymgynghorol Siopa'n Lleol Y Barri a'u cyllideb. Cytunodd yr Aelodau y byddai cynaliadwyedd ehangach yn cael ei ystyried, ond y byddai peth gorgyffwrdd gyda chylch gorchwyl Grŵp Ymgynghorol Siopa'n Lleol Y Barri, ac fe gytunwyd y dylai Cynghorwyr o'r Grŵp hwn fynychu cyfarfod cyntaf Gweithgor Y Barri Gynaliadwy i gytuno ffordd ymlaen.

Dyweddodd y Cynghorydd Payne ei bod yn bwysig ystyried sut roedd tirlun ymgysylltu cymunedol wedi newid ers dechrau'r pandemig o ran y grwpiau a'r cadwyni cyfathrebu a sefydlwyd.

PENDERFYNWYD:

- 1. Y dylid trefnu cyfarfod o Weithgor Y Barri Gynaliadwy cyn cyfarfod y Cyngor ar 29 Gorffennaf 2020.**
- 2. Y dylid gwahodd aelodau Grŵp Ymgynghorol Siopa'n Lleol Y Barri (Aelodau'r Cyngor yn unig) i fynychu'r cyfarfod.**
- 3. Y dylid cyflwyno unrhyw argymhellion gerbron cyfarfod y Cyngor ar 29 Gorffennaf 2020 i'w trafod a'u cymeradwyo.**

732.

YSTYRIED ENWI'R ADEILAD CYMUNEDOL YN NYNESFA'R FYNWENT YN DILYN ADBORTH O'R GYMUNED

Dyweddodd y Prif Swyddog wrth yr Aelodau fod Adeilad Cymunedol Dynesfa'r Fynwent wedi'i orffen ac y byddai'n cael ei drosglwyddo i'r Cyngor ar ddydd Gwener 3 Gorffennaf 2020. Dywedodd y gofynnwyd i'r cyhoedd am awgrymiadau - trwy gyfryngau cymdeithasol - ar gyfer enwi'r adeilad. Dywedodd y derbyniwyd nifer o ddewisiadau, a'r awgrym mwyaf poblogaidd oedd y dylid enwi'r neuadd er cof am Bryan Foley a fu yn drist iawn farw'n ddiweddar.

Dyweddodd y Cynghorydd S Hodges y cafwyd llawer o ddiddordeb gan y cyhoedd ar y mater hwn. Cynigiodd y dylai gweithgor drafod y mater ymhellach er mwyn lleihau nifer yr awgrymiadau i gasgliad bychan o enwau ac yna mynd ati i ofyn i'r cyhoedd ddewis pa un sydd orau ganddynt. Ychwanegodd ei bod yn teimlo ei bod yn bwysig fod y penderfyniad hwn yn cael ei wneud mewn ffordd cyhoeddus – yn enwedig felly gan nad oedd aelodau'r cyhoedd yn gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor oherwydd y cyfyngiadau sydd ar waith.

Dywedodd y Cynghorydd Brooks fod deiseb yn cylchredeg ar hyn o bryd yn galw am enwi'r adeilad ar ôl Gwyneth Payne, y cynghorydd benywaidd du cyntaf yng Nghymru.

Dywedodd y Cynghorydd Bailey fod dadleuon yr un mor gryf dros enwi'r adeilad er cof am nifer o unigolion gwahanol, ond y cafwyd ymateb clir gan y cyhoedd o blaid enwi'r adeilad ar ôl Bryan Foley. Cynigiodd efallai y gellir cael cyfaddawd addas trwy ddod o hyd i ffordd arall o gofnodi arwyddocâd yr hyn a gyflawnodd Gwyneth Payne.

Cytunodd yr Aelodau y byddai'n her sicrhau bod y sawl oedd yn pleidleisio i enwi'r adeilad yn byw yn Y Barri.

Dywedodd y Cynghorydd S Hodges y byddai'n fuddiol cael polisi ar waith ar gyfer cytuno ar y drefn ar gyfer enwi unrhyw asedau all fod ym meddiant y Cyngor yn y dyfodol. Dywedodd ei bod yn bwysig bod yn sensitif i faterion a drafodwyd dros yr wythnosau diwethaf a dywedodd na ddylid rhuthro'r broses o enwi'r adeilad.

Dywedodd y Cynghorydd Bailey ei fod yn hapus i dynnu ei gynnig yn ôl er mwyn i'r mater gael ei drafod yn fanylach gan weithgor.

Cytunodd yr Aelodau y dylid trafod y mater mewn cyfarfod o'r Gweithgor Arloesi ac y dylid dod â'u hargymhelliad yn ôl i gyfarfod o'r Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad terfynol ar y ffordd orau ymlaen.

733. **ATAL RHEOL SEFYDLOG 3(aa)**

PENDERFYNWYD y dylid atal Rheol Sefydlog 3(aa) am gyfnod o ddeng munud ar hugain.

734. **PARHAU AG EITEM -
YSTYRIED ENWI'R ADEILAD CYMUNEDOL YN NYNESFA'R
FYNWENT YN DILYN ADBORTH O'R GYMUNED**

Gofynnodd y Swyddog Ymgysylltu Cymunedol a ddylai baratoi datganiad i ddiweddarau'r cyhoedd ar y penderfyniad a wnaethpwyd. Cytunodd yr Aelodau ar ddatganiad yn nodi y cafodd y mater ei drafod ac y byddai diweddariad ar gael maes o law.

PENDERFYNWYD y dylid cyfeirio'r mater at gyfarfod o'r Gweithgor Arloesi.

735. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

PENDERFYNWYD y cynhelir cyfarfod arferol nesaf y Cyngor Llawn ar nos Fercher 29 Gorffennaf 2020 am 7 pm.

736. **EITHRIO'R WASG & CYHOEDD**

PENDERFYNWYD yn unol ag adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ac oherwydd natur gyfrinachol y materion sydd ar fin cael eu trafod, ei bod yn well er lles y cyhoedd fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod.

737.

ADOLYGU A CHADARNHAU CAMAU A PHENDERFYNIADAU BRYN A GYMERWYD O FEWN Y CYNLLUN DIRPRWYO ERS MIS MAWRTH 2020

Cafodd yr Aelodau wybod am y penderfyniadau a wnaed ers yr wythnos yn cychwyn ar 16 Mawrth 2020 yn ystod cyfnod Argyfwng Pandemig Coronafeirws.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd yr Aelodau yn awyddus hefyd i ddiolch i staff y Mynwentydd am eu gwaith yn gofalu am waith y mynwentydd.

PENDERFYNWYD y dylai'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo'r penderfyniadau a wnaed yn ystod Cyfnod yr Argyfwng gan y Prif Swyddog a'r Arweinyddion Grwpiau yn unol â'r Cynllun Dirprwyo a phroses Gweithredoedd Bryn.

738.

ADOLYGU A CHYTUNO YMATEB I OHEBIAETH J.D. WETHERSPOON YNGHYLCH ARFBAIS CYNGOR TREF Y BARRI AC YSTYRIED YMATEB Y CYNGOR

Derbyniodd yr Aelodau llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Nigel Connor (cyfreithiwr yn gweithredu ar ran JD Wetherspoon) dyddiedig 27 Chwefror 2020 oedd yn cynnwys yr ymateb i'r llythyr a ddanfonwyd ar ran y Cyngor ar 13 Chwefror 2020.

Cafwyd trafodaeth fanwl a lleisiodd yr Aelodau ystod o farnau gwahanol ar yr ymateb.

Cynigiodd y Cynghorydd S Hodges y dylid danfon ymateb i'r llythyr yn lleisio siom y Cyngor ynghylch y cynnig ac yn cynnig nifer o awgrymiadau i'w cynnwys yn y llythyr.

Cymerwyd pleidlais ar y cynnig uchod, a'r canlyniad oedd y **PASIWYD** y cynnig trwy bleidlais fwyafrifol.

Dros	-	15
Yn erbyn	-	7

Cytunodd yr Aelodau hefyd ei bod yn hanfodol fod Arfbais y Cyngor yn cael ei gofrestru'n Nod Masnach er mwyn diogelu sefyllfa'r Cyngor ac atal y sefyllfa hon rhag digwydd eto yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

1. Y dylai'r Prif Swyddog gysylltu â chyfreithiwr y Cyngor i drefnu llunio ymateb i gyfreithiwr JD Wetherspoon yn seiliedig ar drafodaeth fanwl y Cyngor;
2. Y dylai'r Prif Swyddog drefnu cofrestru Arfbais Cyngor Tref Y Barri yn Nod Masnach ar frys.

739.

CYMERADWYO A RHOI AWDURDOD I'R PRIF SWYDDOG (CLERC Y DREF) SELIO CYTUNDEB ASIANTAETH MYNWENT PORTHCERI 2020 - 2023

PENDERFYNWYD:

1. Y dylid cymeradwyo Cytundeb Asiantaeth Mynwent Porthceri.
2. Y dylid rhoi awdurdod i'r Prif Swyddog (Clerc y Dref) selio Cytundeb Asiantaeth Mynwent Porthceri.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 pm.

Llofnodwyd Dyddiedig

.....

(Maer y Dref)